I S - D D E D D F W R I A E T H

# 2017 Rhif (Cy.10 )

# DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

# Cyfarwyddydau i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *13 Chwefror 2017* |
| *Yn dod i rym* | *28 Chwefror 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 12(3) a 204 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn:

**Cychwyn, dehongli a chymhwyso**

**1.**—(1) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 28 Chwefror 2017 ac fe'u rhoddir i'r Byrddau Iechyd Lleol a ganlyn—

(a) Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg;

(b) Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Aneurin Bevan;

(c) Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr; a

(d) Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

(2) Yn y Cyfarwyddydau hyn—

ystyr "carchardai perthnasol" ("*relevant prisons*") yw Carchar Ei Mawrhydi Berwyn, Carchar Ei Mawrhydi Caerdydd, Carchar Ei Mawrhydi

(**1**) 2006 p. 42.

Abertawe, Carchar Ei Mawrhydi Brynbuga a Charchar Ei Mawrhydi Prescoed.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), mae person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn unrhyw un o'r carchardai perthnasol i gael ei drin, am gyfnod y cadw hwnnw, fel pe bai'n preswylio fel arfer yng nghyfeiriad y carchar hwnnw at ddiben rheoliad 2(2) o Reoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) 2009(**1**).

(4) Nid yw paragraff (3) yn gymwys mewn perthynas â chomisiynu gofal seiciatrig mewn ysbyty at ddibenion symud person sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn carchar i ysbyty o dan adrannau 47 neu 48 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983(**2**).

**Dirymu**

**2.** Mae Cyfarwyddiadau i Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd, Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe a Bwrdd Iechyd Lleol Sir Fynwy (2006)(**3**) wedi eu dirymu.

Dr Sarah Watkins

Llofnodwyd gan **Dr Sarah Watkins,** o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad: 13 Chwefror 2017

(**1**) O.S. 2009/1511 (Cy. 147).
(**2**) 1983 p. 20.
(**3**) 2006 Rhif 17.